Cofnodion cyfarfod rhif 91
Pwyllgor Cynghori Cymru
Cyfarfod hybrid ar 28 Tachwedd 2023

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Robert Andrews | Cadeirydd |
| Angharad Evans | Aelod |
| Aled Eirug | Aelod (eitemau 1-9) |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Eleanor Marks | Cyfarwyddwr, Ofcom Cymru |
| Elinor Williams, | Pennaeth Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| Meleri Evans | Rheolwr Materion Rheoleiddiol, Cymru, Ofcom |
| David Jones | Aelod ar ran Cymru o Fwrdd Ofcom |
| Ruth McElroy | Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys |
| Rick Hill | Cadeirydd, Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau |

Cydweithwyr eraill yn Ofcom

**Ymddiheuriadau**
Tom Crick Aelod

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod rhif 91 Pwyllgor Cynghori Cymru. Cafwyd ymddiheuriadau gan Tom Crick gan ei fod wedi nodi'n ddiweddar y byddai'n ymddiswyddo oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau gyda rôl newydd. Ymddiheurodd Aled Eirug am eitemau 10-13. | |
| **2. Datgan Buddiannau Aelodau – ar lafar**<br><br>Dim. | |
| **3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 a materion sy'n codi**<br><br>CYMERADWYWYD y cofnodion, gan ychwanegu sylwadau a gafwyd gan y Cadeirydd. | |
| 4. **Adroddiad y Cadeirydd – ar lafar**<br><br>Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar o weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf gan gynnwys canlyniad y drafodaeth Ffyrdd o Weithio a oedd yn cynnwys:<br><br>• Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg ar gael ym mhob cyfarfod.<br>• Cadarnhau mai cylch gwaith y Pwyllgor yw llunio a chanfod cyngor i Ofcom mewn ffordd glir a manwl. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
| --- | --- |
| • Mewn ymateb i gwynion aelodau am ormod o negeseuon e-bost gan Ofcom, awgrymwyd y gallai Aelodau optio allan o ddiweddariadau a hysbysiadau Ofcom i gael llai o negeseuon e-bost. Mae'r aelodau'n cael eu hannog i osod rhybudd i gyfrifon e-bost preifat pan dderbynnir negeseuon e-bost gan Ofcom.<br>• Bydd yr hysbyseb ar gyfer aelodau newydd nawr yn cynnwys chwilio am dri aelod newydd yn dilyn ymddiswyddiad Tom Crick. Mae'r aelodau'n cael eu hannog i dynnu sylw at y swyddi gwag drwy eu rhwydweithiau. Mae'r Bwrdd Cynnwys hefyd yn recriwtio aelodau newydd.<br>• Bydd Ofcom Cymru yn edrych ar ffyrdd eraill o hysbysebu'n ddwyieithog gyda chydweithwyr yn y maes Cyfathrebiadau. EM i gysylltu ag asiantaeth recriwtio.<br>• Bydd y Cadeirydd ac Ofcom Cymru yn awgrymu cyflwynwyr ar gyfer cyfarfodydd y flwyddyn nesaf gan nodi y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o wybodaeth am y byd ar-lein. Cytunodd y Cadeirydd i ddosbarthu dogfen ar y cyd i gasglu awgrymiadau. Aelodau i'w llenwi. | PCC<br><br>Ofcom Cymru<br>PCC/ Ofcom Cymru |
| **5. Y Diweddaraf: Aelod Bwrdd Ofcom ar ran Cymru**<br><br>Roedd Aelod y Bwrdd ar ran Cymru wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddiwrnod Strategaeth Flynyddol y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Awst. Dywedodd eu bod wedi trafod dwy thema gyffredinol. Y cyntaf oedd dyfodiad deallusrwydd artiffisial a'r cyfleoedd a'r risgiau cysylltiedig. Trafododd yr aelodau effaith deallusrwydd artiffisial ar gyfieithiadau Cymraeg. Yr ail thema oedd geo-wleidyddiaeth yng nghyd-destun y DU gyda ffocws ar: fathau o arloesi a thechnoleg; effeithiau ar ddatblygu economaidd; seiberddiogelwch; a llywodraethu a rôl rheoleiddwyr.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar sut y gallai deallusrwydd artiffisial helpu gyda chyfieithu Cymraeg – mae Ofcom yn edrych ar opsiynau. Awgrymodd y gallai cynrychiolydd o Brifysgol Bangor annerch un o gyfarfodydd y PCC yn y dyfodol i drafod rhinweddau deallusrwydd artiffisial o fewn rôl iaith. Dywedodd EW ei bod wedi defnyddio hyn yn bersonol a bod y galluoedd cyfieithu wedi cael cryn argraff arni. Bydd Ofcom yn ymchwilio i'r manteision.<br><br><u>CYNGOR ALLWEDDOL</u> Dylai Ofcom edrych ar ysgogi'r defnydd o gyfieithu peirianyddol. | Ofcom Cymru |
| **6. Diweddariad – Aelod ar ran Cymru o'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau**<br><br>Roedd Cadeirydd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Aelod dros Ogledd Iwerddon wedi cyflwyno papur ymlaen llaw ac wedi tynnu sylw at y materion canlynol:<br><br>• Mae'r Panel yn disgwyl i'r Llywodraeth gwblhau'r broses o recriwtio aelod ar gyfer Cymru. Mae ymgyrch recriwtio ar gyfer Cadeirydd newydd yn cael ei chynnal hefyd.<br>• O ran mudo VoIP, mae ymchwil yn parhau ar y ffordd orau o gyfathrebu â'r defnyddwyr yr effeithir arnynt. Y darparwyr cyfathrebiadau sy'n dal yn gyfrifol am yr ymgyrch ar draws y DU. Awgrymwyd i'r Pwyllgor wahodd rhywun o BT i annerch y Pwyllgor mewn perthynas â VoIP.<br>• Mae pryder parhaus am fynediad at wasanaethau post dibynadwy a'r cynnig i ddanfon ar lai o ddiwrnodau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Bydd RH yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor i gadarnhau os yw'r Panel wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y safon byw digidol sylfaenol. | Ofcom Cymru<br><br>Rick Hill |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| • Mae'r Panel wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith ar ddiogelwch ar-lein a defnyddio data personol. Mae'n awyddus i gael pobl ar y Panel sydd â sgiliau ar-lein i edrych ar wahanol fathau o gynnwys. Mae cynllun i gynnal ymchwil i breifatrwydd a moeseg ddigidol yn dilyn darn o waith a gomisiynwyd yn flaenorol.<br><br>CYNGOR ALLWEDDOL nawr/cyn bo hir bydd ymchwil PSTN yn dechrau cyfrifyddu ar gyfer ymddygiad/teimlad defnyddwyr ar ôl mudo, nid dim ond cyn, i ddarparu profiadau go iawn o fudo. | |
| **7. Y Diweddaraf: Aelod ar ran Cymru o'r Bwrdd Cynnwys**<br><br>Roedd Aelod Cymru o'r Bwrdd Cynnwys eisoes wedi dosbarthu adroddiad diweddaru ac ystyriwyd bod pawb wedi'i ddarllen. Ar ben hynny, tynnodd sylw at y pwyntiau canlynol:<br>• Daw tymor Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys i ben ddiwedd mis Ionawr.<br>• Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn asesu pa bynciau y mae am eu codi. Un o'r rhain yw'r dirwedd newyddion yn y gwledydd a'r rhanbarthau.<br>• Dywedodd nad yw'r agenda ar hyn o bryd yn cynnwys eitem benodol ar gyfer materion yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae cylch gwaith y Bwrdd mor eang. Mae'r Aelod ar ran Cymru yn bwriadu trafod sut gellir gwella hyn â'r Cadeirydd newydd. Teimlai fod angen aelodau newydd ar y Bwrdd i sicrhau cynhwysiad ac eglurder lleisiau o bob un o'r gwledydd.<br>• Cafwyd trafodaeth am ddiogelwch ar-lein a faint o waith a ddisgwylir gan y Bwrdd Cynnwys. Mae'r Bwrdd yn bwriadu llunio strategaeth. Awgrymwyd y gallai fod angen strategaeth gyfathrebu i fynd i'r afael ag unrhyw gamddealltwriaeth o gylch gwaith Ofcom. | |
| **8. Y Diweddaraf: Polisi Cyhoeddus**<br>Roedd papur diweddaru wedi'i ddosbarthu i'r aelodau. Ymunodd Kate Biggs â'r cyfarfod a thynnodd sylw at nifer o feysydd polisi a datblygiadau Seneddol gan gynnwys.<br><br>• Mae Bil y Cyfryngau yn mynd rhagddo'n gyflym, rhoi'r Bil Ar-lein ar waith a pharatoi ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol sydd ar fin cael ei gynnal.<br>• Wrth ateb cwestiwn am S4C, dywedodd KB fod y sefyllfa ar hyn o bryd yn cael ei monitro gan staff Ofcom Cymru ond nad oedd hyn yn fater i Ofcom.<br>• Cafwyd trafodaeth am yr ymgynghoriad parhaus ar y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Trafododd yr aelodau y broses arfaethedig o annog rhanddeiliaid yng Nghymru i gymryd rhan. Mae Ofcom Cymru wedi bod yn gweithio gyda thîm Llundain ac yn chwilio am gyfleoedd i drefnu cyfarfodydd un i un gyda rhanddeiliaid. Awgrymwyd y dylid cynnal trafodaeth barhaus hefyd am bosibilrwydd trefnu digwyddiadau bord gron ehangach yn y dyfodol. KB i roi gwybod i'r aelodau os oes cynllun ymgysylltu ar waith ar hyn o bryd. | KB |
| **9. Adroddiad: Datblygiadau Diweddar yng Nghymru**<br><br>Fe wnaeth Eleanor Marks, Cyfarwyddwr Cymru, dynnu sylw at y canlynol o'i hadroddiad ysgrifenedig, a oedd wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod:<br><br>• Roedd Ofcom Cymru wedi cynnal cyfarfod Bwrdd Ofcom y tu allan i Lundain ym mis Tachwedd a diolchodd i'r tîm am drefnu digwyddiad llwyddiannus. | |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| • Y diweddaraf am recriwtio. Ar hyn o bryd mae Ofcom Cymru yn recriwtio ar gyfer Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg a thri aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru. Mae swydd wag ar gael o hyd ar gyfer Cydymaith ar-lein a fydd yn cael ei hysbysebu yn y flwyddyn newydd.<br>• Cadarnhaodd EM fod Ofcom wedi cymeradwyo'r cynigion ar gyfer newidiadau yn BBC Cymru 2.<br>• Rhoddodd ddiweddariad ar y swmp mawr o waith iaith Gymraeg cyfredol. Mae Ofcom Cymru yn dal i ddisgwyl clywed yn ôl gan Gomisiynydd y Gymraeg am amrywiad y gofynnwyd amdano i'r Safonau o ran y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Trafododd yr aelodau bwyntiau a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar Ddarlledu yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys barn y Pwyllgor ar gefnogi digwyddiadau rhestredig yng Nghymru. Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn llunio ymateb i'w gynigion a'i fod yn trafod hyn ymhellach yn nes ymlaen.<br><br><u>CYNGOR ALLWEDDOL</u> ynghylch: BBC Radio Cymru 2 – Cytunodd PCC â'r asesiad cytbwys o'r penderfyniad. | PCC |
| **10. Channel 4**<br><br>Ymunodd Briony Robinson, Sam Westbrook (yn bersonol) a'r Pennaeth Chwaraeon (drwy Teams) â'r cyfarfod a rhoi cyflwyniad ar weithgareddau cyfredol a diweddar Channel 4 a'i weithgareddau yn y dyfodol. Amlinellodd y tîm gynlluniau'r Sianel ar gyfer y dyfodol gan gynnwys rhoi sylw i'r Gemau Paralympaidd. Roedd yr aelodau'n falch iawn o glywed am gynlluniau i droi'r Tramshed yn ganolfan gynhyrchu/stiwdio ar gyfer y Gemau Paralympaidd a digwyddiadau chwaraeon yn y dyfodol fel Fformiwla Un.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu hamser a'u cyflwyniad. SW i ddosbarthu'r sleidiau. | C4 |
| **11. Aildrwyddedu Sianel 4**<br><br>Bydd yr eitem hon yn cael ei haildrefnu mewn cyfarfod yn y dyfodol. | |
| **12. Dyfodol dosbarthu teledu**<br><br>Trafodwyd y papur Cais am Dystiolaeth. Nododd y Pwyllgor mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion oedd 12 Rhagfyr. Nid oedd y Cadeirydd wedi derbyn unrhyw sylwadau nac ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen gan aelodau hyd yma. Trafodwyd y cwestiynau a ofynnwyd ond oherwydd nad oedd llawer o aelodau yn bresennol yn y cyfarfod, cytunwyd y byddai'n drafftio ymateb amlinellol ac yn ei ddosbarthu i'r aelodau am fewnbwn gan fod amser yn brin. Mynegodd Ofcom ei bod hi'n bwysig bod PCC yn ymateb. EW i holi os oedd modd ymestyn y dyddiad cau. | Ofcom Cymru |
| **13. Ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon**<br><br>Rhoddodd Laura Nettleton a Rachael Krishna gyflwyniad i'r Pwyllgor.<br><br>Cafwyd trafodaeth am ofynion iaith Gymraeg. Gofynnodd yr aelodau pa sgyrsiau oedd wedi cael eu cynnal gyda phlatfformau am iaith. Sut byddai sylw sarhaus Cymraeg yn cael ei drin? Dywedodd y tîm eu bod yn ymchwilio i'r maes hwn ac y byddent yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y broses o ddelio â deunydd o'r fath. | LN |

| Eitemau ar yr Agenda | Gweithredu |
|---|---|
| CYNGOR ALLWEDDOL – Ynghylch Diogelwch ar-lein: oherwydd bydd fframwaith Ofcom yn caniatáu i blatfformau ddefnyddio peiriannau i adnabod cynnwys niweidiol yn y lle cyntaf, mae hi’n bwysig bod Ofcom yn sicrhau bod platfformau’n gallu adnabod cynnwys niweidiol Cymraeg yn y ffordd orau. Dylai hyn gynnwys darparu rhestrau o wasanaethau cyfieithu awtomataidd i blatfformau. | |
| **14. Eitemau gwybodaeth** (wedi’u nodi) | |
| **Eitemau allweddol i’w nodi o’r cyfarfod heddiw:**<br>• Eitem Aelod o’r Bwrdd: Ofcom i archwilio trosoledd drwy ddefnyddio deallusrwydd artiffisial ar gyfer cyfieithu<br>• Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu: awgrymodd y Pwyllgor i’r Panel y byddai ei ymchwil efallai’n hoffi ystyried teimlad ar ôl mudo. Y Panel i edrych ar wella’r cyfathrebu am fudo. PCC i gefnogi ac i gryfhau pryderon y Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu gan ddefnyddwyr ar ôl mudo.<br>• Polisi Cyhoeddus: mynegodd y Pwyllgor bwysigrwydd ystyried deallusrwydd artiffisial i gynorthwyo gyda chyfieithu Cymraeg.<br><br>Ni chynigwyd eitemau ychwanegol ar yr agenda.<br><br>**Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol:**<br><br>Mynegodd y Pwyllgor bryder bod cyfarfodydd mis Hydref a mis Tachwedd yn 2024 yn agos iawn at ei gilydd a gofynnodd i Ofcom Cymru ymchwilio i bosibilrwydd newid y dyddiadau. | Ofcom Cymru<br><br>Panel Defnyddwyr Gwasanaethau Cyfathrebu<br><br>Ofcom Cymru |